# Gwrthrychau cyfeirio (OOR)

Gwrthrychau cyfeirio (OOR) yw gwrthrychau sydd ag ystyron penodol wedi'u neilltuo iddyn nhw. Gallan nhw gynrychioli unrhyw beth; gair neu symbol er enghraifft, byddai **fforc** yn cynrychioli cinio, byddai **sbwng** yn cynrychioli amser bath a byddai **allwedd** yn cynrychioli cartref. Gallan nhw helpu plentyn i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd wrth iddo ddangos beth sydd ar fin digwydd.

Maen nhw’n amlsynhwyraidd, sy'n golygu y gallan nhw fod yn gyffyrddol, yn weledol, neu fod ag arogl, sain neu symudiad nodedig.

## Beth ddylwn i ei wneud?

- Cyflwynwch y gwrthrych pan fyddwch chi'n symud i weithgaredd, lle neu ddigwyddiad newydd e.e., allweddi ochr yn ochr â'ch cyfathrebu ar lafar yn dweud 'Amser mynd adref'.
- Anogwch y plentyn i edrych ac archwilio'r gwrthrych â'r ddwy law.
- Caniatewch ac anogwch y plentyn i ddal y gwrthrych wrth symud i'r lle/gweithgaredd.
- Cyn gynted ag y bydd y gwrthrych cyfeirio wedi'i gyflwyno, sicrhewch eich bod yn mynd â’r plentyn i'r lle/gweithgaredd hwnnw.







## Cofiwch...

Gall defnyddio gwrthrychau mewn sefyllfaoedd bob dydd leihau lefel rhwystredigaeth a dryswch plentyn ynghylch yr hyn sy'n digwydd. Maent yn darparu trefn **glir a chyson i'r plentyn.**

**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos isod.**

SCAN ME

www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

## Sut?

**Defnyddiwch yr un gwrthrych, yr un gair a byddwch yn gyson.**

## Rhoi hynny ar waith

- Defnyddiwch y gwrthrych cyfeirio **yn rheolaidd ac yn gyson** - meddyliwch am ba weithgareddau mae'r plentyn yn eu gwneud yn rheolaidd.
  Dylai unrhyw wrthrych cyfeirio **fod yn arbennig i'r plentyn.** Wrth ddewis gwrthrychau cyfeirio mae'n bwysig **arsylwi'r plentyn** a nodi sut mae’n rhyngweithio â'r amgylchedd a pha bethau sy'n bwysig iddo.
- **Ysgogi**- Rhaid iddo fod yn ysgogol i'r plentyn, e.e. os yw'r plentyn yn fywiog yn ystod gêm arferol gyda pharasiwt, yna dewch o hyd i

## Symud ymlaen…

Ceisiwch gyflwyno'r cysyniad o **Nawr** a **Nesaf**. Mae'r strategaeth weledol syml hon yn helpu'r plentyn i ddeall beth sy'n dod nesaf. Defnyddiwch ddarn o gerdyn, gludwch lun o'r gweithgaredd y gofynnir i'r plentyn ei wneud ar y chwith ac ysgogydd cryf y gall ei wneud wedyn ar y dde.